

COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER 25 – 03 – 2024

Cofnodion Drafft Cyfarfod Misol Nos Lun Mawrth 25ain 2024 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **03/24 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Richard Evans. Cynghorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, Aled Eynon, Ken Howell, Antoni Schiavone, Eleri Samson, Dilwyn Smith, Adrian Thomas. Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn Bresennol: Cyfieithydd
2. **03/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Angharad Edwards, Marc Rees, Gethin Richards, Delyth Evans, Cyng S. G. H Evans
3. **03/24 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.
4. **03/24 HEDDLU:** – Ymddiheiriad
5. **03/24 COFNODION:** i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Chwefror 26ain 2024
Cynnig: Cyng Jamie Ayres Eilio: Cyng Antoni Schiavone
6. **03/24 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – gweler Materion Angen Trafodaeth
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – gweler Adroddiad Pwyllgor
7. **03/24 GOHEBIAETH:**
 - i. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro C1295 Velindre SA44 5HR - cylchlythyrwyd
 - ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 19/02/2024 - 23/02/2024 – cylchlythyrwyd
 - iii. ebost – Versus Arthritis - New contact/referral form – cylchlythyrwyd
 - iv. ebost – CSG – Newyddion diweddaraf – cylchlythyrwyd
 - v. ebost – Atgoffa Cysylltu Sir Gâr Nacro Neuadd yr Eglwys Gatholig CNE 13/03/24 11yb -1yp – cylchlythyrwyd
 - vi. ebost – Marie Curie – llythyr o ddiolch am y rhodd
 - vii. ebost – CSG – cau hewl dros dro U5470, Velindre SA44 5XB – cylchlythyrwyd
 - viii. ebost – Llais Cymru – Ymunwch â Sgwrs Genedlaethol gyda Llais Llais – cylchlythyrwyd
 - ix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26/02/2024 - 01/03/2024 – cylchlythyrwyd
 - x. ebost – Bwletin CHT – cylchlythyrwyd
 - xi. ebost -- Dyfodol ein cefn gwlad – Sadwrn 16/03/2024 Neuadd Sant Pedr, Caerfyrddin, 11am - cylchlythyrwyd
 - xii. ebost – Ymgynghoriad BT Consultation – Ciosg Pentrecagal – cytunwyd dylai'r Cyngor fabwysiadu'r ciosg
 - xiii. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro C1295 Cwrmdud SA33 6AX – cylchlythyrwyd
 - xiv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 04/03/2024 - 08/03/2024 – cylchlythyrwyd
 - xv. ebost – Pwyllgor Stori Fawr 6yh Neuadd y Ddraig Goch 19/03/2024 – cylchlythyrwyd
 - xvi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 11/03/2024 - 15/03/2024 – cylchlythyrwyd
 - xvii. ebost –Versus Arthritis – Diweddariad Sir Gâr - cylchlythyrwyd
 - xviii. ebost – CSG – Cau ffordd ar frys U5470 Velindre SA44 5EL – cylchlythyrwyd
 - xix. ebost – CSG – Cau ffordd Dros dro, Velindre - U5411 – cylchlythyrwyd
 - xx. ebost – CSG – Cais i gau hewl Penlon Castellnewydd Emlyn 24/4/24 – cylchlythyrwyd
 - xxi. ebost – CSG – Digwyddiadau yn Cof Gâr - Amgueddfeydd Sir Gâr - cylchlythyrwyd
 - xxii. ebost – URDD – Cronfa Cytfe i Bawb yr Urdd - cylchlythyrwyd
 - xxiii. ebost – Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru – cylchlythyrwyd
 - xxiv. ebost - : Grŵp ffocws ar gyfer cynrychiolwyr ieuencid cyngorau tref a chymuned - cylchlythyrwyd
 - xxv. ebost – CSG – cau hewl ar frys ger Maes Aur Rhos Llandysul SA44 5HD - cylchlythyrwyd
 - xxvi. ebost - Amgueddfa Wlân- Digwyddiad Dysgu Cymraeg i Oedolion 20 Ebrill 2024- 10am-4pm cylchlythyrwyd
 - xxvii. ebost – CSG – Cau hewl ar frys U5470 Velindre SA44 5EL - cylchlythyrwyd
 - xxviii. ebost/email - Ymgynghoriad newydd: Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) - cylchlythyrwyd
8. **03/24 CYNLLUNIO**
CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI LLAWN
Cais Ymgynghori llawn

PL/07303 - Bwriad i godi estyniad to fflat ar ochr a chefn yr eiddo i ffurfio pwll nofio a champfa / ardal ffitrwydd – Parc Y Bedw, Heol Y Dderwen, Llandysul, SA44 4RP – *dim gwrthwynebiad*

PL/06981 – Cyswllt cefn ac estyniad - Parc Y Sty, Velindre, Llandysul, SA44 5UN - *dim gwrthwynebiad*

PL/07204 – Newid defnydd tyddyn i encil fyfyrion Bwdhaidd gyda man addoli â gwestai cysylltiedig, llety ar gyfer uned breswyl i'r rheolwr, adeiladu 10 caban gyda mwynderau a pharcio cysylltiedig codi cerflun -Pantyporthman, Bancyffordd, Llandysul, SA44 4RY – *mae pryder gan y cyngor am y trafndiaeth ychwanegol fydd hyn yn creu ar yr hewlydd cul sy'n arwain at y safle yma ynghyd a chyflwr difrifol wael yr hewlydd yn yr ardal yna ac felly bydd yr holl trafndiaeth ychwanegol yn gwneud pethau llawer gwaeth.*
9. **03/24 MATERION ARIANNOL**
 1. **Anfonebau**
 - i. TRYWYDD [caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb Medi a Mawrth].....£171.00

Cadeirydd _____

Dyddiad _____

ii. HMRC (Mawrth).....	£130.00
iii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG [Hirio Neuadd]	£12.75
iv. ULIC [aelodaeth].....	£668.00
v. SOLUTIONS FACTORY.....	£150.00
vi. CSG [golau stryd]	£12,260.57
vii. ANTUR CYMRU [gwasanaeth PAYE].....	£72.00
viii. Ad daliad i C.T. CN Emllyn	£79.38
ix. RYAN JONES [torri gwair Parc Pentrecwrt].....	£500.00

Arian yn y Banc ar 05/02/24£35,950.91

b. S/O

Cyflog y Clerc £520.00

2. Credid

Taliad am silwair Treale, Velindre£200.00

Ad daliad wrth Solutions Factory.....£79.38

3. Apêl am Nawdd Ariannol

Sioe Llandysul Show - £300

10. 03/24 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Parc Pentrecwrt – Cyng J Ayres i wneud arolwg a ydy'r trigolion eisiau cadw'r parc ynghyd a faint o deuluoedd ifanc sydd yn y pentref. Darganfyddiadau i'w trafod yn nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Roedd Ryan Jones wedi rhoi anfoneb am waith cynnal a chadw yn y parc – yn dilyn trafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor yn ei dalu ond nad yw i wneud rhagor o waith am y tro nes ein bod yn gwybod beth fydd y camau nesaf ynghylch y safle. Cyng K Howell i wneud ymholiadau a fyddai'r Cyngor Sir a diddordeb i werthu'r ddaear i'r deiliaid.

11. 03/24 ADRODDIAD PWYLLGOR

Byrddau Llwybrau Gwlân – dim i adrodd nôl ar hyn o bryd.

12. 03/24 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1.Cyng A Eynon – i. *llawer iawn o sbwriel ar ymyl yr hewlydd lleol*

2. Cyng A Schiavone - i. *hewl o Pentrecwrt i Landysul mewn cyflwr gwael*

3. Cyng J Crossley – i. *am nodi bod tractorau a pheiriannau mawr yn teithio llawer rhy gyflym ar ein heolydd bach ac yn distriwio'r wyneb*

4.Cyng K Howell – i. *cododd y mater o doiledau Parc Puw er mwyn cael mwy o drafodaeth a gwneud penderfyniadau bydd rhaid i hyn cael ei roi ar Agenda a'i drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

13. 03/24 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf nos Lun Ebrill 29ain 2024 am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55yh

_____ Cadeirydd

Dyddiad _____